Adroddiad i'r: Cabinet

Dyddiad y Cyfarfod: 25 Medi 2018

Aelod / Swyddog Arweiniol: Hugh Evans / Emlyn Jones

Awduron yr Adroddiad: Mike Horrocks a Nicola Caie

Teitl: Ardal Gwella Busnes (AGB) Y Rhyl

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn sôn am ddatblygiad Ardal Gwella Busnes y Rhyl a hwylusir gan y Cyngor fel rhan o'i waith i gefnogi cymuned fusnes gryfach yn y dref.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- Diweddaru'r Cabinet am ddatblygiad Ardal Gwella Busnes (AGB) y Rhyl.
- Cadarnhau nad yw'r AGB yn gwrthdaro ag unrhyw bolisïau presennol sy'n gysylltiedig â chylch yr AGB.
- Cytuno ar safle pleidleisio o ran eiddo sy'n perthyn i Gyngor Sir Ddinbych yng nghanol y dref.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

a) Bod y Cabinet yn cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 1) fel rhan o'u hystyriaethau.

b) Bod y Cabinet yn nodi cynnwys y Cynllun Busnes AGB (Atodiad 2) ac argymhelliad y Swyddog nad oes unrhyw sail i roi feto o dan Ddeddfwriaeth AGB Cymru (2005) (Atodiad 3) gan nad yw'n gwrthdaro ag unrhyw bolisïau lleol presennol nac yn gosod baich anghymesur ar fusnesau penodol yn yr ardal.

c) Bod y Cabinet yn cytuno i gefnogi sefydlu'r AGB trwy bleidleisio 'o blaid' ym mhleidlais yr AGB mewn perthynas â phob un eiddo ardrethadwy cymwys sydd gan y Cyngor yn yr AGB.

d) Os cytunir ag (c) uchod, bod y Cabinet yn cytuno i ddirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a Pharth Cyhoeddus i fwrw pleidleisiau mewn perthynas â phob eiddo ardrethadwy cymwys sydd gan y Cyngor yn yr AGB.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae AGB yn fodel sefydledig ac mae dros 200 ohonynt wedi cael eu sefydlu ledled y DU gyda'r mwyafrif ohonynt yng nghanol trefi. Mae Ardal Gwella Busnes yn rhoi pŵer i fusnesau lleol ddod at ei gilydd, penderfynu pa welliannau yr hoffent eu gwneud mewn ardal ddaearyddol ddiffiniedig a chodi arian i gyflawni'r gwelliannau hynny. Fel arfer mae Ardaloedd Gwella Busnes yn cael eu rhedeg fel cwmnïau di-elw ac yn cael eu rheoli gan y busnesau sy'n eu hariannu.

4.2 Ni chyfyngir ar y prosiectau na'r gwasanaethau y gellir eu darparu trwy AGB. Yr unig orfodaeth yw bod yn rhaid iddo fod yn rhywbeth sy'n ychwanegu at wasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol. Fel rhan o broses yr AGB mae gofyn i'r Cyngor gwblhau datganiadau gwasanaeth sylfaenol sy'n gosod allan lefelau presennol darpariaethau gwasanaeth ym mhob ardal AGB boed yn ddarpariaeth statudol neu anstatudol (enghraifft yn Atodiad 4).

4.3 Mae'r broses o ddatblygu AGB yn cynnwys ymgynghori'n ddwys â busnesau ac o hynny fe gynhyrchir Cynnig ar gyfer AGB ac fe gynhelir pleidlais 28 diwrnod trwy'r post lle bydd busnesau'n pleidleisio 'o blaid' neu 'yn erbyn' y cynnig. Y Cynnig ar gyfer yr AGB yw'r ddogfen allweddol y mae busnesau yn pleidleisio arni. Mae'n gosod allan sut y bydd yr AGB yn gweithio (incwm arfaethedig, gwariant, ardal AGB a mesurau perfformiad) a sut y caiff yr Ardoll AGB ei wario yn y dref.

4.4 Cyn y gellir sefydlu'r AGB, rhaid i ddau amod gael eu cyflawni; yn gyntaf, rhaid i fwyafrif y pleidleiswyr bleidleisio 'o blaid' ac yn ail mae'n rhaid i'r nifer sy'n pleidleisio 'o blaid' gynrychioli mwy na 50% o gyfanswm gwerth trethiannol yr holl bleidleisiau a fwriwyd. Os cyflawnir y ddau fwyafrif gellir sefydlu'r AGB a bydd pob busnes o fewn y ffin ddiffiniedig yn atebol am dalu'r ardoll p'un a wnaethant bleidleisio "o blaid" neu "yn erbyn" yn y bleidlais. Os caiff AGB ei sefydlu, bydd yn weithredol am uchafswm o bum mlynedd. Os yw'r AGB yn dymuno parhau ar ôl hynny, bydd yn rhaid llunio cynnig newydd a chynnal pleidlais arall.

4.5 Mae gan yr awdurdod lleol rôl statudol yn natblygiad a gweithrediad Ardaloedd Gwella Busnes sy'n cynnwys cynnal y bleidlais a chasglu a gorfodi'r ardoll. Mae'n rhaid i'r awdurdod hefyd gadarnhau nad yw'r AGB arfaethedig yn gwrthdaro â chynlluniau a rhaglenni'r ardal. Os yw'r awdurdod lleol yn credu fod trefniadau'r Ardal Gwella Busnes yn debygol o wrthdaro i raddau helaeth â pholisi presennol, neu os yw'n gosod baich ariannol ar dalwyr ardrethi neu fod baich yr ardoll yn annheg, gall benderfynu rhoi feto ar y cynigion[1].

4.6 Ym mis Mai 2016 gwahoddodd Tîm Datblygu Economaidd a Busnes (DEB) y Cyngor fusnesau a chynghorau tref o bob rhan o'r sir i ymweld ag AGB bresennol er mwyn dysgu am y cyfleoedd a gyflwynir. Daeth tair tref ymlaen i ddechrau a phenderfynodd y Rhyl a Phrestatyn fynd ymlaen i archwilio'r buddion posibl ymhellach ond roedd busnesau Dinbych yn teimlo nad oedd yn addas iddyn nhw. Yn dilyn proses gaffael gystadleuol, penodwyd Mosaic Partnership ym mis Mawrth 2017 i weithio gyda busnesau yn y Rhyl a Phrestatyn i gynnal astudiaeth o ddichonoldeb sefydlu AGB a datblygu cynnig i bleidleisio arno wedi hynny. Yn dilyn hyrwyddiad cynllun Llywodraeth Cymru i annog datblygiad Ardaloedd Gwella Busnes, mae Tîm DEB y Cyngor wedi bod yn cefnogi cymuned fusnes Llangollen yn ddiweddar i wneud cais llwyddiannus am gyllid gan Lywodraeth Cymru.

4.7 Yn dilyn argymhelliad yn y cam dichonoldeb y byddai AGB yn ddichonadwy yn y Rhyl, mae Mosaic wedi creu Grŵp Gorchwyl o aelodau o'r gymuned fusnes leol. Emlyn Jones, Pennaeth y Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yw cynrychiolydd CSDd. Mae'r Grwp Gorchwyl, a gefnogir gan Mosaic, wedi cynnal ymgynghoriad gyda busnesau, ymchwil i'r farchnad a chynllunio prosiectau i ddatblygu Cynllun Busnes AGB, mae hyn wedi cynnwys trafodaethau wyneb yn wyneb, arolwg ar-lein a digwyddiadau / gweithdai ymgynghori yng nghanol y dref.

4.8 Mae crynodeb cynllun busnes wedi'i lunio (Atodiad 5) sy'n cynnwys ffin arfaethedig yr AGB a manylion y prosiectau arfaethedig. Mae'r gwaith o ymgysylltu â busnesau ynglŷn â chynnwys Cynllun Busnes yr AGB yn parhau, ond ar sail yr ymatebion hyd yma cynigir y bydd yr AGB yn cyflawni'r pethau canlynol yn y Rhyl:

| **Maes y Prosiect** | **Gweithgareddau Arfaethedig** |
|---|---|
| **Glanhau a Chynnal a Chadw** | Archwilio, monitro a chraffu rhaglenni glanhau presennol ac ychwanegu gwerth a gwella'r rhain yn strategol lle bo hynny'n briodol. |
| **Cymorth Busnes** | Mentrau yn ymwneud â denu buddsoddiad cyhoeddus a busnesau newydd, gan fynd i'r afael â'r broblem adeiladau gwag a gostwng costau busnes. |
| **Diogel a Chroesawgar** | Gweithio gydag asiantaethau presennol i asesu mannau problemus o ran diogelwch, yn ogystal ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a chynllunio'n rhagweithiol i gydweithio gan ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i ostwng problemau. |
| **Marchnata a Hyrwyddo** | Gweithio gyda phob rhanddeiliad i gyflwyno brand positif i'r Rhyl er mwyn newid y ddelwedd negyddol sydd gan y dref yn ôl pob tebyg. |
| **Dylanwad Strategol ac Eiriolaeth** | Lobïo llywodraethau lleol, datganoledig a chanolog yn effeithiol ar bolisi a chyllid megis ardrethi busnes, cludiant a chynllunio a datblygu yn ogystal â chael dylanwad go iawn ar ymddangosiad y Rhyl yn y dyfodol. |

4.9 Yn y Rhyl, cynigir bod pob busnes cymwys yn talu ardoll o ryw 2% o werth ardrethol eu safle. Bydd busnesau bach sydd â gwerth ardrethol llai na £5,000, elusennau nad ydynt yn ennill unrhyw incwm masnachol, busnesau di-elw sy'n gwbl ddibynnol ar danysgrifwyr a gwirfoddolwyr a busnesau sy'n disgyn i'r sectorau diwydiannol, gweithgynhyrchu, storfeydd a gweithdai yn cael eu heithrio rhag talu'r

[1] https://www.legislation.gov.uk/wsi/2005/1312/regulation/12/made

ardoll. Gall busnesau sy'n cael eu heithrio ddewis gwneud cyfraniad gwirfoddol sy'n rhoi hawl iddynt i'r holl brosiectau a gwasanaethau a amlinellir yn y Cynllun Busnes. Yn seiliedig ar yr ardoll arfaethedig o 2%, y refeniw a amcangyfrifir ar gyfer AGB y Rhyl yw £252,000 y flwyddyn.

4.10 Y dyddiad arfaethedig ar gyfer pleidlais yr AGB (dyddiad olaf y bleidlais) yw 22 Tachwedd 2018. Cyn y bleidlais bydd cynllun busnes terfynol yn cael ei anfon at bob pleidleisiwr cymwys yng nghylch yr AGB yn ogystal â'r Awdurdod Lleol.

4.11 Ar ôl adolygu'r cynigion ar gyfer yr AGB, mae'r swyddog yn argymell nad oes unrhyw sail i roi feto ar y cynnig ar gyfer yr AGB yn unol â Deddfwriaeth AGB (Cymru) 2005.

4.12 Os bydd mwyafrif y pleidleisiau 'o blaid', bwriedir dechrau'r AGB ym mis Ebrill 2019 ac y bydd ei dymor cyntaf yn para 5 mlynedd. Caiff cwmni cyfyngedig drwy warant corfforedig ei sefydlu i gyflawni'r Cynllun Busnes / Cynigion. Bydd yn gyfrifol am gyflawni gwasanaethau'r AGB a bydd yn cyflogi staff fel sy'n briodol i weithredu rhaglen Bwrdd yr AGB o ddydd i ddydd.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 O dan Thema 5 Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol 2013-2023 y Cyngor (Trefi a Chymunedau sy'n Ffynnu) mae'r gwaith o ddatblygu AGB sy'n cael ei wneud gan y Tîm Datblygu Economaidd a Busnes yn ceisio cynorthwyo i wella balchder busnesau ac arweinyddiaeth yn ein trefi. Mae'n rhan o strategaeth hirdymor i ymgysylltu â'r gymuned fusnes er mwyn cynyddu perchnogaeth leol a dealltwriaeth o heriau / problemau ac – yn hanfodol – sicrhau'r adnoddau sy'n ofynnol i fynd i'r afael â nhw.

5.2 Mae gwaith yr AGB yn cefnogi nod Cynllun Corfforaethol y Cyngor i "weithio gyda phobl a chymunedau i feithrin annibyniaeth a chryfder", gan ddod â rhanddeiliaid at ei gilydd a datblygu partneriaeth i gefnogi gwelliannau yng nghanol y dref a fydd yn llesol i'r rheiny sy'n byw, yn gweithio ac ymweld â'r ardal.

5.3 Mae'r AGB arfaethedig yn darparu model sy'n gynaliadwy yn ariannol i gefnogi gwellhad parhaus Canol Tref y Rhyl. Mae'n cynnig cyfle arwyddocaol ar gyfer gwaith gwella cydweithredol gyda ffocws arbennig ar y materion hynny a osodir yn y Cynllun Busnes, gyda llawer ohonynt yn gydnaws â blaenoriaethau CSDd.

5.4 Mae'r AGB yn cyd-fynd i raddau helaeth â'r gwaith Cynllunio Meistr a wneir yn y Rhyl ar hyn o bryd dan arweiniad y cyngor.

## 6. Beth fydd cost hyn a beth fydd ei effaith ar wasanaethau eraill?

6.1 Mae costau datblygu'r AGB yn cael eu talu gan gyllideb y Tîm Datblygu Economaidd a Busnes o fewn y Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod Y Cyhoedd.

6.2 <u>Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd</u>

6.2.1 Sefydlir Ardal Gwella Busnes yn unol â Rheoliadau Ardaloedd Gwella Busnes (Cymru) 2005[2]. Bydd gofyn i'r awdurdod lleol reoli'r broses bleidleisio ffurfiol, bydd y bleidlais yn cael ei chynnal trwy'r post ar gyfer pob busnes yng nghylch yr AGB sy'n atebol i dalu Ardoll yr AGB. Caiff ei gynnal gan Electoral Reform Services Ltd ar ran y Swyddog Canlyniadau. Bydd Cwmni'r AGB yn talu'r costau hyn (£1,810) os bydd yn llwyddiannus neu cyllideb y Tîm Datblygu Economaidd a Busnes os nad yw'r AGB yn llwyddiannus.

6.2.2 O dan y ddeddfwriaeth AGB mae gofyn i'r Cyngor gasglu'r ardoll (bydd Civica yn ymgymryd â'r gwaith hwn yn Sir Ddinbych) ar ran y Cwmni AGB. Telir y costau hyn gan yr AGB. Bydd yr AGB a'r awdurdod lleol yn arwyddo Cytundeb Gweithredu er mwyn llywodraethu sut y caiff arian ardoll yr AGB ei gasglu, ei weinyddu a'i drosglwyddo i Gwmni'r AGB.

6.3 <u>Y Cyngor fel talwr ardoll</u>

---

[2] https://www.legislation.gov.uk/wsi/2005/1312/contents/made

6.3.1 Os bydd mwyafrif y pleidleisiau “o blaid” yn y bleidlais ac os sefydlir AGB yn y Rhyl, bydd y Cyngor yn atebol am dalu cyfraniad Ardoll yr AGB ar bob un o’i eiddo. Yn seiliedig ar ardoll o 2%, uchafswm posibl cost yr ardoll i Gyngor Sir Ddinbych fyddai £28,900 y flwyddyn er y disgwyliwn i hwn fod yn is.

6.3.2 Byddai cyfraniad y Cyngor yn helpu i greu cyfanswm cyllid o ryw £252,000 y flwyddyn i’w wario yng nghylch yr AGB ar brosiectau a flaenoriaethir gan y Gymuned Fusnes. Byddai pob £1 a gyfrannir gan y Cyngor yn eistedd ochr yn ochr â £7.72 o fuddsoddiad y sector preifat. Mae hyn yn cyfateb i enillion blynyddol o 779% ar fuddsoddiad. Gellir defnyddio cyllid a godir gan yr AGB i ysgogi cymorth grant ychwanegol gan ystod eang o ffynonellau.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?

7.1 Mae’r cynnig yn cyfrannu’n gadarnhaol at les cenedlaethau'r dyfodol, gweithio gyda sefydliadau partner a’r gymuned fusnes i gynyddu effeithiau cadarnhaol a lleihau effeithiau negyddol lle bo hynny’n bosibl.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda’r Pwyllgorau Craffu ac eraill?

8.1 Gwelir isod yr hyn a gyflawnwyd:

- Cynhaliwyd Astudiaeth Ddichonoldeb AGB lawn yn 2017 a oedd yn cefnogi datblygiad AGB yn y Rhyl, roedd ymgynghoriadau yn ystod y cyfnod dichonoldeb yn cynnwys:
    - Arolwg o fusnesau (ymatebodd 80)
    - 30 o gyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda Rhanddeiliaid Allweddol a Busnesau
    - Arolwg o holl Fusnesau Cenedlaethol / Prif Swyddfeydd
    - 2 Weithdy Busnes
- Creu Grŵp Gorchwyl AGB o 10 o aelodau sy’n goruchwylio datblygiad yr AGB ac sy’n cynnwys busnesau o bob un o sectorau busnes Canol y Dref yn ogystal ag asiantaethau cyhoeddus – mae hwn yn cyfarfod yn fisol.
- Dosbarthwyd Taflen Ffeithiau a newyddlen AGB at bob talwr ardoll posibl (548 o fusnesau) a datblygwyd gwefan AGB y Rhyl.[3]
- Mae ymweliadau a chyswllt personol â busnesau yn parhau
- Cyflwyniad i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ym mis Gorffennaf 2017
- Cyfarfod briffio gyda’r Aelod Arweiniol, y Cynghorydd Hugh Evans ym mis Hydref 2017
- Cyflwyniadau i Grŵp Ardal Aelodau y Rhyl a Grŵp Cyfeirio y Rhyl
- Cyflwyniadau a Gweithdai yng nghyfarfodydd brecwast Grŵp Busnes Y Rhyl – Mawrth 2018, Gorffennaf 2018 a Hydref 2018.
- Cyfarfod gyda’r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ym mis Gorffennaf 2018
- Mae datganiadau llinell sylfaen wedi cael eu cwblhau ar gyfer pob gwasanaeth gofynnol yng nghylch AGB y Rhyl ar y cyd â’r Penaethiaid Gwasanaeth.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae costau datblygu’r AGB yn cael eu hariannu. Os yw’n llwyddiannus bydd cost ychwanegol i’r cyngor a bydd yn rhaid iddo gael ei gynnwys fel pwysau cyllideb.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Gallai busnesau bleidleisio yn erbyn y cynigion ar gyfer AGB yn y bleidlais, os bydd mwyafrif y pleidleisiau "yn erbyn" ni sefydlir yr AGB a byddai hynny'n arwain at golli gwerth oddeutu £252,000 o refeniw y flwyddyn i’r ardal. I leihau’r risg hon mae’r Grŵp Gorchwyl yn creu Cynllun Busnes cadarn sydd wedi bod yn destun ymgynghoriad eang ac sy'n dangos gwerth am arian i holl dalwyr posibl yr ardoll.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

---

[3] www.rhylbid.co.uk.

11.1 Adran 2, Deddf Llywodraeth Leol 2000. Y pŵer i ymgymryd â gweithgareddau i hyrwyddo lles cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol yr ardal.